PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 24 Mehefin 16, 2022 50c.

Cymanfa Ganu
Ail-ddechrau canu ar ôl tair blynedd ...

Erys dydd Sul y 15 Mai 2022 yn y cof am flynyddoedd lawer; dyddiad sy'n dynodi carreg filltir bwysig yn hanes rhai o eglwysi gofalaeth Bröydd Teifi wrth i Gymanfa Ganu Undebol Annibynwyr Pencader a'r cylch, sy'n cynnwys eglwysi Annibynnol Tabernacl, Gwyddgrug, Capel Nonni a Gwernogle ddod ynghyd i'r Tabernacl, Pencader unwaith eto i ganu a hynny am y tro cyntaf ers mis Mai 2019.

Dwy oedfa

Cafwyd dwy oedfa fendithiol iawn, yng nghwmni'r arweinyddes, Sioned Page-Jones; oedfa'r plant fu yn y prynhawn a chyda chymorth Band y Diarhebion, pleser oedd gwrando ar y plant yn canu ac yn mwynhau. Roedd hi'n braf cael cyfle i dreulio orig yn sgwrsio ag eraill yn ystod y te a baratowyd gan aelodau'r Tabernacl.

Tro'r oedolion oedd hi gyda'r hwyr ac ni chawsom ein siomi gyda Sioned wrth y llyw unwaith yn rhagor. Diolch i gôr Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn a'u harweinydd Daniel Rees am ein diddanu rhwng yr emynau ac am gynorthwyo gyda'r canu cynulleidfaol.

Diolchiadau

Mae ein diolch yn fawr i Sioned Page-Jones am ei gwaith clodwiw gyda'r plant a'r oedolion yn ystod y Gymanfa ac yn ystod y rihyrsal fawr ar 1 Mai. Diolch i'r organyddion Marc Jones, Tabernacl a Valerie Jones, Capel Nonni am eu gwasanaeth wrth yr organ yn ystod y ddwy oedfa, am gyfeilio i'r côr ac am eu cymorth yn ystod rihyrsals y flwyddyn ac i Nancy Jones, Tabernacl am ei gwaith cywrain yn dysgu'r emynau. Diolch i gyfeillion y gymanfa am ddod i gefnogi a chynorthwyo gyda'r canu. Llywyddwyd y ddwy oedfa gan Chris Bolton a diolch iddo am ei eiriau pwrpasol. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol gan Celyn Davies a Magi Williams yn ystod y prynhawn a Rhiannon Laughlin a Siân Thomas yn ystod yr hwyr. Talwyd y diolchiadau swyddogol gan gadeirydd pwyllgor y gymanfa, Eric Jones, Gwernogle. Diolch i aelodau Capel Nonni am gynnal y rihyrsal fawr ac i aelodau capel Tabernacl Pencader am gynnal y gymanfa.

Daeth oedfa fendithiol yr hwyr i ben yn sain gorfoleddus yr emyn dôn o waith Caradog Roberts, sef Rachie a geiriau pwerus Elwyn P. Howells:

Gorfoleddwn heddiw;
Crist yw sail ein cân;
unwn i'w glodfori
bawb yn ddiwahân.

Braf oedd medru ymgynnull unwaith eto i gydganu moliant mewn pedwar llais. Camwn ymlaen yn hyderus at gymanfa ganu 2023 gan gadw'r traddodiad canu cynulleidfaol yn fyw yn yr ardal.

Siân Thomas, Tabernacl

Rhannu bwyd

Mae'n bur debyg ein bod i gyd yn ymwybodol bod yna fwyd yn cael ei wastraffu – nid yn unig yn y cartref ond hefyd gan archfarchnadoedd. Un peth sydd i gyfrif am hyn yw'r rheolau llym ynglŷn â'r dyddiad gwerthu a'r dyddiad defnyddio. Ond mae yna lacio'n dechrau digwydd gyda rhai archfarchnadoedd er mwyn lleihau gwastraff. Slawer dydd doedd dim oergell na rhewgell gyda ni yn y cartref, felly rhaid oedd dibynnu ar ein synnwyr arogli er mwyn penderfynu a oedd rhywbeth yn ddigon da i'w fwyta ai peidio.

Partneriaid

Rydych chi fel fi mae'n siŵr wedi gweld rhai'n mentro arni i geisio gwneud defnydd o'r bwyd yma sydd yn ofer, fel nad yw yn gorfod cael ei daflu i'r bin. A dyna yw menter ddiweddaraf Tŷ Croeso, Bethlehem Newydd, Pwll-trap Sanclêr. Weithiau mae pethau'n cwympo i'w lle ar yr adeg gywir. Sylweddolwyd bod swmp aruthrol o fwyd ffres yn cael ei daflu i'r bin yn ddyddiol gan y Co-op yn Sanclêr, ac nid dim ond ganddynt hwy wrth gwrs. Ond roedd y Co-op wedi bod wrthi'n ddyfal ond yn aflwyddiannus, yn ceisio dod o hyd i bartneriaid i gymryd y bwyd fel ei fod yn cael ei ddefnyddio gan yr anghenus ac nid yn cael ei daflu i ffwrdd.

parhad ar dudalen 2

Rhannu bwyd – parhad

I'r adwy

Gwelais gyfle yn y fan hyn i Tŷ Croeso ddod i'r adwy ond er mor awyddus oeddwn i helpu, ffeindiais i hi'n anodd cael ffynhonnell i dderbyn y bwyd yn lleol. Ein nod yw bod o gymorth i'r gymuned leol, ond methais. Fodd bynnag wrth siarad gyda'r lloches i fenywod yng Nghaerfyrddin tra 'od i wrthi'n cludo wyau Pasg iddynt, dyma ddeall y byddent yn falch iawn i gymryd y bwyd ac y byddai o gymorth mawr iddynt. Roedd rhaid iddynt wneud cais i'r Co-op yn y lle cyntaf er mwyn cael ei derbyn i fod yn Bartneriaid ond mater o ffurfioldeb oedd hynny. Mi gafwyd caniatâd iddynt dderbyn y bwyd.

Gwirfoddolwyr

Cytunwyd gyda'r Co-op byddai Tŷ Croeso yn gyfrifol am wneud hyn ar ddydd Llun a dydd Iau yn wythnosol. Y cam nesaf oedd dod o hyd i wirfoddolwyr i gludo'r bwyd o Sanclêr i Gaerfyrddin rhyw 9 milltir i ffwrdd. Ond doedd dim rhaid pryderu – daeth yr enwau a lluniwyd rota yn eithaf cyflym. Ymestynnwyd y gwahoddiad allan i aelodau o'r capeli eraill a'r eglwysi sy'n perthyn i weinidogaeth leol Bro Sanclêr ac unrhyw un oedd yn barod i helpu i ddweud y gwir. Fe'm synnwyd achos mae'r ymateb wedi bod yn rhyfeddol. Mae gennym nawr waith dyngarol yn digwydd yn draws-enwadol a chroestoriad o'r gymuned yn uno gyda'i gilydd er lles y rhai anghennus. Mae Tŷ Croeso yn falch iawn o beth sydd wedi digwydd ac yn rhyfeddu at yr ymateb positif a'r cydweithio brwdfrydig o fewn y gymuned.

Trawsnewid

Fe wyddoch o'm herthyglau blaenorol ein bod yn mynd i drawsnewid llawr isaf y capel ac erbyn hyn mae caniatâd cynllunio wedi ei dderbyn ond nid yw'r gwaith wedi dechrau eto. Ochr arall y prosiect yw y gwaith dyngarol wrth gwrs ac mae hynny yn mynd o nerth i nerth. Heb fod yr adeilad yn barod! Mae'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Ac os Duw a'i myn, gwelir adeiladu, cryfhau a datblygu ar y camau bychain hyn sydd eisoes wedi digwydd, yn unol â'n gweledigaeth.

Iago 2: 14-17

'Frodyr a chwiorydd, beth ydy'r pwynt i rywun honni ei fod yn credu, ac wedyn gwneud dim byd o ganlyniad i hynny? Ai dyma'r math o "gredu" sy'n achub rhywun? Er enghraifft, os ydych chi'n gweld brawd neu chwaer yn brin o ddillad neu heb fwyd, ac yna'n dweud "Pob bendith i ti. Cadw'n gynnes a gobeithio cei di rywbeth i'w fwyta." Beth ydy'r pwynt os ydych chi'n ei adael yno heb roi dim byd iddo?

Mae "credu" ar ei ben ei hun yn union yr un fath. Os ydy'r "credu" ddim yn arwain at wneud rhywbeth, mae'n farw gelain.'

Annalyn Davies
Swyddog Cymunedol Tŷ Croeso

Beth yn union yw ystyr neu fwriad ...?

Y Sul diwethaf bues mewn oedfa yn dilyn yr hen arfer o gyd-ddweud Gweddi'r Arglwydd. Sawl gwaith dros fy mywyd, tybed? 52 x 80 = 4,160 o leiaf. Roeddwn yn dal i deimlo'n annifyr gyda'r arddull ymosodol, 'Dyro i ni ...' a chrafu pen, eto fyth, ynghylch ystyr y gair 'fel', yn yr adnod 'Maddau i ni ein dyledion fel y maddeuwn.' O un safbwynt, gellir dehongli'r agoriad fel petai'n orchymyn ar i Dduw weithredu, am fod y gweddïwr ei hun yn gweithredu a rhoi esiampl! Dyna un ystyr ar 'fel'. O safbwynt arall, gellir dehongli 'fel' i olygu 'yn debyg i' neu 'er mwyn i ni fedru'.

Tybed a oes ymhlith darllenwyr *Y Tyst* eraill sydd yn neu wedi troedio llwybrau tebyg? Os oes, hoffwn glywed ganddynt, os yn bosibl, erbyn y Sul fydd yn dilyn rhifyn penodol hwn o'r *Tyst*. Os gwireddir hyn, gallaf ymuno yn y cydadrodd mewn goleuni newydd. Gyda llaw, mae'n fuddiol crafu pen uwchlaw y ddwy fersiwn o Weddi'r Arglwydd sydd ar glawr blaen *Caneuon Ffydd*.

Neville Evans, Bethel, Penarth



Gweddi am yr Ysbryd:
Fy angen am gwmni ysbryd cariad a llawenydd

Anwybyddais addewid fy Niddanydd,
Fy niod foreol sy'n ffrydio ffresni fy ffydd
ynghyd â'r bara beunyddiol bendithiol
sydd mor llesol ac angenrheidiol.
Ffolineb yw amddifadu fy enaid
o beidio yfed o ffiol adnewyddol llif dy
ffynnon.
Diogela fi, Dad annwyl,
rhag difrod difrifol fy malchder
wrth ddibrisio'r dyhead dwfn ynof
i geisio ac i garu dy gwmni
a bodloni ar fodolaeth newynog
mewn cyflwr o wendid, tristwch a thlodi.
Cryfha a chyfoethoga fy mywyd
mewn ymwybyddiaeth fwy real
o werth maeth dy ysbrydoliaeth.
Deisyfaf, derbyniaf a diolchaf
am addewid dy ddiddanwch dyddiol.
Amen ac Amen.

Gwilym Wyn Roberts

Yr Adran Gydenwadol

MEHEFIN 16 2022 RHIF 68

Croesawu plant a'u teuluoedd unwaith eto i babell yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd

Wedi dwy flynedd o eisteddfota rhithiol, a thair blynedd ers Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd, bu'n braf cael cyfarfod wyneb yn wyneb eto ar gae ar gyrion Dinbych. Gyda mudiad yr Urdd eleni yn dathlu ei ganmlwyddiant, gwnaed ymdrech arbennig i drefnu gŵyl gofiadwy, â thri pafiliwn yn llawn bwrlwm a thri llwyfan perfformio ar y maes yn ogystal. Bu'r weledigaeth o gynnal arbrawf newydd gyda gŵyl Triban yn llwyddiant, gyda cerddoriaeth fyw ar y maes tan yn hwyr y nos. Llongyfarchiadau i bawb am y trefniadau, yn bwyllgor canolog a llu o wirfoddolwyr yn lleol.

O ran yr elfennau ffydd, dechreuwyd yr wythnos gydag oedfa yng Nghapel Mawr Dinbych, a'r capel yn gyfforddus lawn. Fe'n croesawyd gan y gweinidog, y Parch Ddr Andras Iago, a chafwyd oedfa fendithiol o dan arweiniad plant ac ieuenctid y fro, aeth â ni ar daith hanesyddol oedd yn cwmpasu can mlynedd o negeseuon Heddwch ac Ewyllys Da. Mae ieuenctid Cymru wedi bod ar flaen y gad ers can mlynedd yn cyhoeddi ffordd heddwch a thangnefedd ar gyfer ein byd, a'r neges honno'n cael ei chyfieithu i gant o ieithoedd a'i hanfon i bedwar ban byd erbyn hyn.

Bu hefyd yn braf cael tystiolaeth Gristnogol ar brif faes y brifwyl, ac yn ôl yr arfer bu Cytûn, Cyngor yr Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol yn cydweithio i gynnal stondin lawn prysurdeb a gweithgarwch.

O ran gwaith plant, roedd wyth bwrdd / gorsaf gweithgaredd yno, yn cynnwys bwrdd Lego, peiriant gwneud bathodynnau, creu ffenest liw, taflenni

Lansio adnodd newydd ar ysbrydolrwydd Cristnogol gyda'r Eglwys Fethodistaidd

lliwio a crefft, Jenga, Connect 4 mawr, gwneud breichledau a bwrdd clai. Yn ogystal, roedd fferins a diodydd oer yn cael eu rhannu yn rhad ac am ddim yn ystod yr wythnos.

Bob dydd am 11 o'r gloch cynhaliwyd oedfa fer, yn cynnwys darllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, a gweddi heddwch wrth i ni gofio am sefyllfa enbyd trigolion Wcráin.

Bu staff Cymorth Cristnogol hefyd wrthi'n brysur yn creu murlun anferth yn dangos amrywiaeth byd Duw, ac mae hwnnw bellach ar ei ffordd i'r gadeirlan ym Mangor fel rhan o arddangosfa gelf. Bu nifer o ysgolion Sul lleol hefyd yn creu murluniau ymlaen llaw, ac roedd y rhain i'w gweld yn addurno waliau'r babell yn ystod yr wythnos. Mae ein diolch yn fawr hefyd i'r holl wirfoddolwyr o blith ysgolion Sul y fro a fu gyda ni'n croesawu pawb i'r babell ac yn helpu i gynnal y gwahnaol weithgareddau crefft. Bydd y gweithgareddau hyn eto'n cael eu cynnal ym mhabell yr eglwysi yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Felly, os byddwch yn mynychu'r gwyliau hyn yng nghwmni plant, cofiwch fod 'na

Croesawu Andrew Sully i mewn i'r stondin er mwyn diolch iddo

ddigon o bethau i ddiddanu'r rhai rhwng 3 a 15 oed yn y babell, tra bydd 'na baned a theisen gri ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Yn ystod yr wythnos yn Ninbych bu'n braf cael croesawu'r Parch. Andrew Sully, ficer ardal Llandudno, atom. Roedd ef wedi bod yn brysur yn cerdded o gwmpas cestyll gogledd Cymru er mwyn codi arian at Gymorth Cristnogol. Cafodd ei groesawu gan Llinos Roberts, a derbyniodd ddiolch am yr holl waith gan Nan Wyn Powell Davies.

Cafwyd sawl sgwrs adeiladol hefyd gan arweinwyr eglwysig, a braf oedd cael cwmni Aled Edwards a Gethin Rhys o Cytûn yn y babell.

Cawsom ddigwyddiad arbennig hefyd o dan nawdd yr Eglwys Fethodistaidd, lle lansiwyd adnodd newydd, dwyieithog, ar ysbrydolrwydd Cristnogol.

Yn ôl yr arfer, roedd stondin lyfrau eang yno hefyd, a chafwyd degau o sgyrsiau yn ystod yr wythnos gan arweinwyr gwaith plant ac ysgolion Sul. Bu treulio wythnos yn yr eisteddfod yn fodd i gadarnhau ein hofnau, sef bod llawer o waith da wedi dod i ben yn ystod y cyfnod clo, a llawer o arweinwyr wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi. Diolch am bob sgwrs gadarnhaol a gafwyd hefyd, lle roedd rhieni ac arweinwyr yn mynegi dyhead i gychwyn gwaith newydd, boed yn glwb ar ôl ysgol, oedfa deuluol anffurfiol a sawl syniad creadigol arall. Bydd Aled Davies yn crynhoi rhai o'r awgrymiadau hyn mewn erthygl ar gyfer *Cenn@d* yn ystod yr wythnosau nesaf.

Bwrlwm y gweithgaredd yn ystod yr wythnos

Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch

Cafwyd Wythnos Cymorth Cristnogol brysur yn ardal Llanbed. Diolch i bawb fu'n trefnu'r gweithgareddau ac am eu rhoddion caredig. Cynhaliwyd Bore Coffi ar 14 Mai yn Neuadd Eglwys San Pedr, Llanbed. Eglwys Sant Tomos, Llanbed, oedd lleoliad yr oedfa fore Sul, 15 Mai, dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Flis Randall. Daeth ei neges o Lyfr y Datguddiad; cyfeiriodd at 'Goeden Bywyd' a chafodd y gynulleidfa gyfle i gyfrannu eu gweddïau ar y dail a'r ffrwythau papur a osodwyd ar y goeden.

Eglwysi Plwyf Pencarreg a Chapel Bethel, Parc-y-rhos, fu'n gyfrifol am y Bore Coffi a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cwm-ann fore Llun, 16 Mai. Daeth tyrfa o bell ac agos yno i gymdeithasu a chloncian dros baned a chacen. Agorwyd y bore gan y Parchedig Carys Hamilton, ficer Plwyf Pencarreg, sy'n cynnwys eglwysi Pencarreg, Cwm-ann, Llanycrwys, Cellan a Llanfair Clydogau. Trefnwyd stondin gacennau a raffl, a bu sawl un yn crafu pen wrth ddyfalu pwysau'r gacen! Twynog Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch, gyflwynodd y diolchiadau.

Capel Brondeifi oedd yn croesawu'r byd a'r betws am 'Frecwast Mawr' yn ei festri fore Mercher, 18 Mai. Roedd y selsig, cig moch, yr wyau a'r ffa pob, ynghyd â'r tost a'r marmalêd, y te a'r coffi yn flasus dros ben. Roedd ffrwythau ac iogwrt hefyd ar gael i'r rhai oedd eisiau brecwast â llai o galorïau. Dechreuodd y coginio cyn 7.00 y bore a daeth tyrfa o bell ac agos yno am frecwast wnaeth fodloni'r rhai mwyaf llwglyd! Cyrhaeddodd rhai wedi taith gerdded hamddenol o gwmpas Campws Llanbed Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, dan arweiniad y Parchedig Flis Randall a Deborah Angel o Eglwys Sant Tomos. Teithiodd criw ffilmio Tinopolis o'r rhaglen *Prynhawn Da* o Lanelli am 'Frecwast Mawr'. Cynhaliwyd sawl cyfweliad a ddarlledwyd ar S4C yn tynnu

Twynog Davies, Cadeirydd Pwyllgor CC Llanbed a'r Cylch; Deborah Angel, aelod o Bwyllgor CC Llanbed a'r Cylch ac Ysgrifennydd Eglwys Sant Tomos, a'r Parchedig Flis Randall, Gweinidog Eglwys Sant Tomos, tu allan i Eglwys Sant Tomos, 15 Mai

sylw at ymdrechion Pwyllgor Llanbed a'r Cylch yn cefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol.

Credir mai Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, gafodd y daith hiraf – o Gaerdydd i Lanbed. Daeth gyda Tom Defis, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymorth Cristnogol, sy'n byw yn Sir Gâr ac yn gefnogol i waith Pwyllgor Llanbed a'r Cylch. Cyfeiriodd Mari a Tom at bwysigrwydd gwaith cymunedau sy'n ysgogi'r gymuned leol i gynnal gweithgareddau'n flynyddol er budd yr elusen. Diolchwyd i'r ddau am eu cefnogaeth gan Twynog Davies, a ddiolchodd hefyd i'r trefnwyr am 'Frecwast Mawr' mor llwyddiannus.

Cynhaliwyd gweithgareddau eraill yn ardal Llanbed ym Mai yn cefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol. Cynhaliwyd taith gerdded gan Gapel Bethel, Silian, ar 29 Mai, rhan o weithgareddau Cylch Bedyddwyr Gogledd Teifi. Cafwyd taith hamddenol yn mwynhau gogoniant byd natur megis y barcud coch a'r boda a rhai o blastai hanesyddol y fro, megis Plas y Gelli, Trefilan a Llanllyr, Tal-sarn. Trefnwyd taith gerdded hefyd gan Gapeli Undodaidd Aeron Teifi, a'r holl deithiau cerdded nid yn unig yn codi arian ond hefyd yn cyfrannu camau at gyflawni'r 'Her 300,000 o gamau' Cymorth Cristnogol ym Mai. Mae cyfanswm camau

Criw taith gerdded Capel Bethel, Silian, prynhawn Sul, 29 Mai

aelodau Pwyllgor Llanbed a'r Cylch yn nesáu at ddwy filiwn erbyn hyn! Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cerdded a noddi camau cymaint o gerddwyr!

Derbyniwyd rhoddion hefyd drwy ein tudalen ar wefan GiveStar gan ddefnyddio templed Cymorth Cristnogol. Diolch yn ogystal i'r siopau yn Llanbed a Llanybydder wnaeth dderbyn blwch casglu arian i dderbyn cyfraniadau.

Dymuna Twynog Davies, ar ran Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch, ddiolch i bob un sydd wedi trefnu cymaint o weithgareddau codi arian eleni. Dyma ddywedodd yn ddiweddar am bwysigrwydd Cymorth Cristnogol:

'Mae pawb ohonom fel Cristnogion yn teimlo dyletswydd i helpu'r difreintiedig a'r anghenus ymhle bynnag y maent yn y byd. Da yw cael cofnodi fod y gwaith yn mynd yn ei flaen gyda phwyllgor gweithgar a brwdfrydig yn Llanbed a'r Cylch, a braint yw bod yn Gadeirydd. Cofiwn fod gwaith Cymorth Cristnogol mor bwysig ag erioed yn y cyfnod heriol yma lle mae cymaint o angen nid yn unig yn Wcráin a Zimbabwe, ond mewn nifer o wledydd tlawd y byd.'

Rhys Bebb Jones,
ar ran Pwyllgor Cymorth Cristnogol
Llanbed a'r Cylch

Bore Coffi Eglwysi Plwyf Pencarreg yng Nghanolfan Cwm-ann, 16 Mai

Criw taith gerdded Capel Bethel, Silian prynhawn Sul 29 Mai

O'r Beibl: 4

Cyfres ar gyfer astudiaeth bersonol neu fel grŵp

Gair o Genesis

Darllen: Genesis 1:1–25
"Pwy ydw i? Sut un yw Duw? Beth yw pwrpas bywyd? Beth sy'n bod gyda'r byd? Oes gobaith i'r ddynoliaeth?"

Mae'r rhain yn gwestiynau mawr, yn gwestiynau pwysig. Maen nhw'n gwestiynau sy'n llawer rhy bwysig i'w gadael heb eu gofyn na'u hateb, yn enwedig os oes atebion i'w cael iddynt.

Er i Genesis – llyfr cyntaf y Beibl – gael ei ysgrifennu filoedd o flynyddoedd yn ôl mewn iaith a diwylliant gwahanol, mae'r llyfr yr un mor berthnasol heddiw ag oedd pan gafodd ei ysgrifennu'n wreiddiol. Mae'n berthnasol gan fod yr hen lyfr hwn yn gofyn ac yn ateb yr un cwestiynau oesol. Er i'r ddynoliaeth amrywio'u geiriad o oes i oes, yr un cwestiynau yn y bôn y mae pobl wedi'u gofyn ar hyd y canrifoedd: "Pwy ydw i? Sut un yw Duw? Beth yw pwrpas bywyd? Beth sy'n bod gyda'r byd? Oes gobaith i'r ddynoliaeth?" Hen gwestiynau sy'n gwestiynau cyfoes.

Ym myfyrdodau'r wythnosau nesaf, byddwn yn treulio ychydig amser yn gofyn y cwestiynau hyn i lyfr Genesis. Yn ddi-os, bydd Genesis yn herio rhai o'n rhagdybiaethau ac yn cynnig atebion sylweddol – os nad chwyldroadol – i'n cwestiynau dyfnaf.

Gofyn y cwestiynau cywir
Cyn troi at y llyfr ei hun, mae'n bwysig gofyn pa fath o lenyddiaeth yw Genesis a sut mae mynd ati i ddarllen y llyfr hwn? Y peth cyntaf i'w nodi yw nad gwerslyfr gwyddonol yw *genre* Genesis ac ni ddylid mynd ati i'w ddarllen fel llyfr o'r fath. Y cwestiwn y mae gwyddoniaeth yn ei ofyn yw *sut*? *Sut* mae atomau'n dod at ei gilydd i ffurfio moleciwl? *Sut* mae morgrugyn yn anadlu? *Sut* mae disgyrchiant yn gweithio? *Sut* mae ffotosynthesis yn digwydd mewn cloroplast? Heb os, ni wnaeth Duw ysbrydoli Moses i ysgrifennu Genesis i ateb y fath gwestiynau. Peth annheg fyddai disgwyl i Genesis ateb cwestiynau na fwriadwyd iddo eu hateb.

Bwriad Genesis yw ateb cwestiynau o fath gwahanol. Nid *sut*, ond *pam* a *phwy*. Yn wir, nod Genesis yw ateb cwestiynau fel: *Pam* wnaeth Duw greu'r byd a'r bydysawd yn y lle cyntaf? *Pwy* yw'r Duw sydd wedi creu popeth? *Pwy* yw'r ddynoliaeth y mae Duw wedi ei chreu ar ei lun a'i ddelw? *Pam* rydym ni'n bodoli? Felly, gan fod Genesis a gwyddoniaeth yn ateb cwestiynau gwahanol i'w gilydd, perthynas gyflenwol (*complementary*), nid anghymharus (*contradictory*), sydd ganddynt â'i gilydd. Nid bwriad Genesis yw ateb *sut*; ni all gwyddoniaeth ateb *pam*. Fel y dywedodd Isaac Newton, y gwyddonydd enwog a ddarganfu rym disgyrchiant: "Mae disgyrchiant yn gallu esbonio symudiadau'r planedau, ond ni all egluro pwy yw'r un osododd y planedau i symud."

'Pwy yw Duw?'
Y cwestiwn cyntaf sy'n cael ei ofyn a'i ateb gan Genesis yw: "Pwy yw Duw?" Oes yna unrhyw gwestiwn sy'n haeddu ein sylw yn fwy na'r un hwn?

Mae Genesis yn dechrau drwy egluro mai Duw yw'r Creawdwr sofran. Geiriau cyntaf y llyfr yw: 'Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear' (Genesis 1:1). Cyn i Dduw greu'r cosmos, roedd ef yn bod yn dragwyddol. Er hynny, gan fod Duw yn Drindod o dri pherson – y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân – nid oedd yn unig; nid oedd yn anghyflawn. Ers tragwyddoldeb, roedd Duw wedi byw fel cymdeithas o bersonau lle'r oedd y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân yn ymwneud â'i gilydd mewn cariad perffaith. Felly, ni wnaeth Duw greu'r byd oherwydd ei fod eisiau rhywbeth i'w wneud, neu am ei fod yn chwilio am ffrind yn ei unigrwydd; creodd y byd er mwyn rhannu ei gyflawnder ag eraill – gyda ni.

Y Duw hwn yw Creawdwr popeth. Nid oedd dim yn bod cyn iddo fe eu creu ac fe greodd bopeth allan o ddim byd (*ex nihilo* oedd geiriau Lladin yr hen ddiwinyddion). Pwyslais Genesis 1 ydy fod popeth wedi'i greu gan y Duw nerthol hwn: y nefoedd, y ddaear, goleuni, yr awyr, y moroedd, yr haul, y galaethau, y sêr, y planhigion, y barcud coch, y morfilod, yr hipopotamws, chi a fi. Duw yw Creawdwr popeth ac mae Genesis 1 yn dangos fod trefn ardderchog i'r cyfan mae wedi ei greu.

Nid dim ond pwysleisio mai Duw yw'r Creawdwr y mae Genesis; mae hefyd yn dangos mai fe yw'r Creawdwr *da*. Saith gwaith yn Genesis 1, mae Duw yn edrych ar ei greadigaeth ac yn meddwl: 'gwelodd fod hyn yn *dda*'. Gan fod Duw yn berffaith dda, mae'r hyn mae'n ei greu hefyd yn dda. Mewn geiriau eraill, does dim yn bod gyda'r hyn mae wedi'i greu – mae popeth yn gwbl ddaionus. Popeth yn ei le, popeth yn drefnus, popeth yn dda. Wrth gwrs, rydym mewn byd sy'n edrych yn dra gwahanol heddiw gan ein bod ni'n byw ar ôl trasiedi enfawr Genesis 3: Cwymp dynoliaeth i bechod, trasiedi sydd wedi effeithio ar bob elfen o'r byd hyd y dydd hwn. Ond down ni at hynny yn nes ymlaen!

Cymhwyso
Sut mae cymhwyso'r gwirioneddau hyn i'n bywydau bob dydd ni fel Cristnogion? Wel, gan mai Duw yw'r Creawdwr, fe sydd biau ein bywydau. Ei eiddo ef ydym ni; rydym yn bodoli er ei fwyn ef. Wedi'r cyfan, anghyflawn yw pob creadur heb ei Greawdwr. Does dim yn bwysicach na dod i'w adnabod ef yn well a byw ein bywydau er ei fwyn.

Yr wythnos hon, beth am i ni feddwl yn fwriadol ynglŷn â sut mae cynnwys Duw yn ein holl benderfyniadau, ein holl ddewisiadau a'n holl gynlluniau ar gyfer y dyfodol?

Beth am ddarllen penodau cyntaf Genesis eto er mwyn ystyried y ffordd y mae'r adnodau hyn yn cynnig atebion sylweddol a chwyldroadol i'n cwestiynau dyfnaf?

Gwilym Tudur

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 19 Mehefin, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)
Yr wythnos yma cawn fwynhau emynau o bob rhan o Gymru yng nghwmni Nia Roberts.
Dyma gopi o gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

BBC radio cymru

Radio Cymru
Caniadaeth y Cysegr
Sul, 19 Mehefin, am 7:30yb a 4.30yp
Gareth Glyn yn trafod yr emyn 'Mi glywaf dyner lais' a'r dôn Gwahoddiad, gan mlynedd a hanner ar ôl ei chyfansoddi.

Oedfa Radio Cymru
Sul, 19 Mehefin, am 12:00yp
Gwasanaeth dan ofal Miriam Watling, Llundain

Ymateb Argyfwng Money for Madagascar

Yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2022 trawodd pedair storm drofannol bwerus ym Madagascar gan wneud dros 100,000 o bobl yn y wlad yn ddigartref. I ddechrau ysgubwyd heolydd, cnydau ac adeiladau i ffwrdd yn llwyr yn y brifddinas ac yn nwyrain y wlad gan ddinistrio bywydau a bywoliaeth yn eu sgil. Yn ail, gwasgwyd tai, ysgolion ac isadeileddau yn llwyr yn rhan ddeheuol yr ynys.

Ymhlith y mannau a drawyd gan yr alanas yr oedd Fferm Cartref Plant – un o'r prosiectau a gefnogwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'n partneriaid Money for Madagascar.

Beth y mae Money for Madagascar yn ei wneud i helpu'r trigolion a drawyd gan y seiclon?

Ymatebodd Money for Madagascar yn syth gyda chronfa adfer o £10,000 o'u harian wrth gefn er mwyn cynorthwyo'r bobl fwyaf bregus yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Y mae'r gronfa ymateb chwim hon yn cael ei gweinyddu gan y tîm yn y Swyddfa Malagasi yn y wlad er mwyn sicrhau fod y cymorth priodol yn cyrraedd ein prosiectau a'r cymunedau sy'n derbyn budd heb oedi. Mae cymorth mewn argyfwng yn cynnwys: atgyweirio adeiladau sydd wedi'u dymchwel, bwydo mewn argyfwng, ailblannu cnydau a ddifrodwyd, ailadeiladu meithrinfeydd blanhigion a safleoedd hyfforddiant technegol a grantiau arian mewn argyfwng. Diolch i gyfraniadau'r cyhoedd maent bellach wedi anfon help ychwanegol o £12,000 i gynorthwyo teuluoedd a effeithiwyd i adeiladu eu bywydau.

Cnydau a ddinistriwyd

Yn ystod y seiclonau diweddar, chwalwyd y cnydau ar fferm Topaza. Cefnogodd Money for Madagascar y ganolfan drwy gynnig arian ar gyfer cnydau newydd.

Y mae sefydliad elusennol Mary's Meals a'r cynnyrch o'r fferm bellach yn darparu mwy na digon o fwyd ar gyfer yr holl blant yn y ganolfan a defnyddir yr arian i wella bywydau'r plant yn y ganolfan e.e. drwy dalu ffioedd ysgol.

Mae Money for Madagascar yn ymrwymedig i helpu'r cymunedau Malagasi i adeiladu a gwella eu gwytnwch. Maent yn cynnig cymorth unionsyth ar adeg o argyfwng ac yn buddsoddi mewn rhaglenni tymor hirach sy'n helpu adeiladu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Bydd eich cyfraniadau'n helpu pobl Madagascar i ailadeiladu eu bywydau a'u bywoliaeth nawr ac i ymdrechu ar gyfer gwell gwytnwch wrth wynebu argyfyngau i'r dyfodol.

Gellir cyfrannu trwy fynd i wefan Money for Madagascar https://moneyformadagascar.org/online-donation-form.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2023 – LLŶN AC EIFIONYDD

Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod draw i Lŷn ac Eifionydd y flwyddyn nesaf, a da fydd iddi gael dod, oherwydd y mae peryg i'r darn yma o'r wlad gael ei anwybyddu ymhob ystyr. Bydd yr Eisteddfod yn gyfle da i gyhoeddi ein bod ni yn Llyn ac Eifionydd yma o hyd yn dal i dystio dros y pethau sy'n cyfrif mewn bywyd.

Cyngerdd

Fel rhan o weithgareddau codi arian Cricieth, cynhaliwyd cyngerdd cwbl safonol yng Nghapel y Traeth, Cricieth pnawn Sul 1 Mai. Cafwyd datganiadau organ ardderchog gan Bryn Jones ac Anne Jones a datganiadau o ganeuon gan Gwyneth Glyn a Twm Morys. Diolch am barodrwydd y pedwar ohonynt i gymryd rhan ac i'n hysbrydoli ninnau fel gwrandawyr. Dewi Jones oedd yn cyflwyno'r eitemau.

Cymanfa ganu

Fel rhan o weithgareddau codi arian Porthmadog a'r cylch, cynhelir cymanfa ganu yng nghapel Peniel, Tremadog – adeilad a gaewyd fel addoldy 12 mlynedd yn ôl, ond sydd bellach wedi ei adnewyddu fel canolfan amlbwrpas i'r gymuned. Hwn fydd y digwyddiad cyntaf yn y capel ar ei newydd wedd.

EISTEDDFOD
Llŷn ac Eifionydd
5-12 Awst 2023

Manylion:

Nos Sul, Gorffennaf 17 am 7.30.
Unawdydd: Rhys Meirion (a fagwyd ym Mheniel)
Arweinydd: Iwan Llewelyn
Organydd: Rhys Glyn
Cyflwynydd: Christopher Prew

Bydd rhaglenni ar werth yn Siop Eifionydd, Porthmadog neu wrth y drws ar y noson. Pris £10.

Bydd hwn yn gyfle i foli Duw drwy gyfrwng emynau a thonau sydd â chysylltiadau lleol, a bydd hefyd yn gyfle i weld Peniel ar ei newydd wedd. Y mae'n adeilad eiconig wedi ei gynllunio ar steil eglwys St Martin-in-the-Fields, Llundain, a phan agorwyd y capel yn 1810 mae'n bur debyg bod y ddau Domos – Thomas Charles a Thomas Edwards (Twm o'r Nant) – yn eistedd yn y sêt fawr! Wel, wel, rhyfeddol.

Iwan Llewelyn

Barn Annibynnol

Sul y Tadau

Bydd hi'n Sul y Tadau whap. Mae'n debyg mai arfer Americanaidd yw dathliad modern Sul y Tadau heddiw a lle mae America'n mynd, y mae Prydain yn siŵr o ddilyn.

Dad, Tada, Dadi, Papa, Vater, Abba.

Llun: Ben White, Unsplash

Cychwyniadau

Y mae yna stori gyfarwydd mai menyw o'r enw Sonora Louise Smart gychwynnodd Sul y Tadau yn America ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Fe glywodd Sonora bregeth yn yr eglwys ar Sul y Mamau yn 1909 a chan iddi hi a'i pum brawd a chwaer gael eu magu gan eu tad yn dilyn marwolaeth eu mam, meddyliodd am ei thad a'u magodd nhw ac a ddangosodd y ffordd drwy gariad iddyn nhw, a theimlodd hithau bod angen talu gwrogaeth i'w thad ac i dadau eraill hefyd. Erbyn 1910 roedd Sul y Tadau'n ddigwyddiad answyddogol yn yr eglwysi lleol ac fe ledodd i bellafion o hynny. Erbyn 1966 penderfynodd yr Arlywydd Lyndon B. Johnson y dylai trydydd Sul mis Mehefin fod yn Sul y Tadau a chwe blynedd yn ddiweddarach sefydlodd yr Arlywydd Richard Nixon y dyddiad yn rhan swyddogol o gyfraith y wlad, fel tasen nhw ddim yn trystio'u pobol i dalu teyrnged yn iawn i'w tadau heb hynny. Ond dyna ni, pobol ryfedd ar y naw yw bois 'Merica os chi'n gofyn i fi.

Byd-eang

Mae'n debyg y daeth y diwrnod i boblogrwydd anferthol ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yn enwedig ar ôl colli cymaint o filwyr, yn dadau, meibion a brodyr, yr adeg honno. Byddai'r fath golled wedi gwneud i bobl werthfawrogi eu tadau cymaint yn fwy. Yn wir fe gaiff Dydd y Tadau ei ddathlu ar draws y byd ar ddyddiadau gwahanol, yn enwedig mewn gwledydd Catholig yn Ewrop, a chan mai Cristnogaeth sy'n dyrchafu'r Forwyn Fair yw Catholigiaeth, mae'n dda clywed bod y tad yn cael cydnabyddiaeth hefyd. Y tad a'r fam felly. Rhieni.

Tadau

Efallai nad oes gan nifer ohonom ni dadau bellach, ond mi fu ar un adeg, ac mi wnaethon nhw ein ffurfio ni yn pwy ydym (yn gam neu'n gymwys). Nhw, ynghyd â'n mamau ni. Roedden nhw'n ffigurau o awdurdod a phrofiad, yn ein cysgodi ni rhag drycinoedd a'n caru ni. Roedden nhw ill dau yn rhoi esiampl i ni ar sut i fyw ein bywydau ni, gobeithio (neu weithiau, yn achos rhai, sut i *beidio* â byw ein bywydau, ond erthygl arall yw honno...). Meddai Waldo Williams yr arch-fardd, yr awen-fardd, yr arwr-fardd:

> 'Mae Gwirionedd gyda 'nhad
> Mae Maddeuant gyda 'mam.'

Gwirionedd a maddeuant

Nice one, Waldo! Mae hynny'n swnio'n ddigon o esiampl i fi, ac yn ganllaw reit dda i fyw yn y byd. Os oes rhywun yn ein bywydau ni wedi dangos i ni beth yw gwirionedd – o ran y byd, ac o ran yr hyn ddaw allan o'n cegau ni (bydded ein ie yn ie) – yn enwedig yn yr oes 'post-truth' hon; ac os ydy rhywun wedi dangos sut i faddau a sut i dderbyn maddeuant, wel awn ni ddim yn bell o'n lle dwi ddim yn meddwl. Ac mi ddown ninnau i fod yn rhan o fywydau'r cenedlaethau nesaf, yn ddynion ac yn fenywod yn ein tro. Gan obeithio y dangoswn ni'r un gwirionedd a maddeuant iddyn nhw fedru canfod eu ffyrdd yn y byd. Y byddwn ni'n rhieni teilwng iddyn nhw, p'un ai ein bod ni'n perthyn 'go iawn' ai peidio. Fel 'na mae hi i fod mewn cymdeithas wâr.

Y mae Duw, wrth gwrs yn dad arnom ni gyd, yn fam, yn rhiant. Mae wedi bod yn esiampl i ni, mae e wedi dangos gwirionedd a maddeuant i ni filgwaith drosodd ac os nad yw hynny'n rhywbeth i roi diolch amdano, wn i ddim beth sydd. Felly ...

Sul y Tadau Hapus i ti Dduw!

EWR

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Dr Emyr Evans

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r Parchg. Emyr Gwyn Evans ar ennill gradd Ph.D. yn ddiweddar. Teitl ei draethawd ymchwil yw:

'Datblygiad yr eglwysi Annibynnol yn ne-orllewin Cymru, c. 1760–1837, gyda sylw arbennig i gyfraniad David Davies, Abertawe (1763–1816), Morgan Jones, Tre-lech (1768–1835) a David Peter, Caerfyrddin (1765–1837)'

Nid ar chwarae bach y mae unrhyw un yn cwblhau gwaith o'r fath gan ei fod yn cymryd amynedd, gwaith ymchwil manwl a dyfalbarhad. Bydd modd darllen y traethawd ar lein maes o law.

Cynhelir y seremoni graddio ar gampws Prifysgol Llanbed ddydd Gwener 8 Gorffennaf ac felly bydd yn colli diwrnod o raglen Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb.

Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd

Mae yna dair blynedd ers i bwyllgor gweinyddol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (*WCRC*) gyfarfod wyneb yn wyneb yn Kappel am Albis ger Zürich yn y Swistir, hynny yng nghysgod y man lle lladdwyd y diwygiwr Ulrich Zwingli (1484-1531). Eleni eto cyfarfod yn rhithiol a wnaethom. Mawr fu'r fendith o dreulio pedwar diwrnod yng nghwmni ein gilydd.

'Rydym yn dod at ein gilydd fel Pwyllgor Gweinyddol nid yn unig i ymateb i adroddiadau, ac i wneud penderfyniadau, ond i ateb y cwestiwn: beth mae'r Arglwydd yn ei ofyn gennym ni wrth i ni ymgynnull fel Cymundeb?' oedd geiriau ein llywydd Najla Kassab wrth iddi agor y trafodaethau. Mae'r Cymundeb fel pob eglwys leol, enwad ac undeb yn gorfod gofyn cwestiynau o'r fath wrth symud ymlaen o'r pandemig.

Swyddfa Newydd

Clywsom gan Grŵp Rhaglen y Cynllun Strategol (SPPG) am lwyddiant y broses ddirnadaeth 'COVID a Thu Hwnt', a gynhaliwyd o dan nawdd y Cymundeb rhwng Rhagfyr 2020 a Thachwedd 2021. 'Mae'r Cymundeb wedi sylweddoli,' meddai Rathnakara Sadananda, cydlynydd y grŵp, 'beth sy'n bosibl i sicrhau cynnwys pobl yn ein gwaith. Yn wir, mewn rhai ffyrdd mae'r Cymundeb yn fwy cysylltiedig ac yn fwy bywiog nag erioed yn dilyn y pandemig.' Un datblygiad cyffrous yw bod y Cymundeb, gan weithio ar y cyd â'r Eglwys Efengylaidd Waldensian ac Eglwys yr Alban, am sefydlu swyddfa yn Rhufain i hybu rhannu gwybodaeth a gweithgarwch â'r Eglwys Gatholig.

Cyllidol

Fel ym mhob maes, bu i ni dreulio amser yn trafod materion cyllidol. Yn ei adroddiad i'r pwyllgor gweinyddol, dywedodd y trysorydd, er bod y Cymundeb wedi sicrhau gwarged, mae risgiau sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Cynnwys y rhain chwyddiant cynyddol a gostyngiad mewn taliadau aelodaeth o eglwysi. Nododd bod 70% o'r aelod-eglwysi y dal i fod heb dalu eu tâl aelodaeth am 2021. Gwn o ddarllen cylchlythyron gwahanol sefydliadau nad y Cymundeb yw'r unig gorff eciwmenaidd sy'n profi hyn. 'Heddiw fe'n gelwir i sefyll yn gadarn ac i sicrhau adnoddau ariannol, sefydlogrwydd, a chynaliadwyedd ynghanol heriau ariannol sy'n bygwth yr holl waith eciwmenaidd,' oedd geiriau heriol ein llywydd.

Rhanbarthau

Cafwyd trafodaethau amrywiol ar faterion amgylcheddol, bugeiliol a chenhadol. Fel arfer, adroddiadau'r rhanbarthau oedd yn ennyn y diddordeb mwyaf. Y tro hwn, adroddiadau o'r cymorth a chefnogaeth mae eglwysi Ewrop – yr Almaen, Gwlad Pwyl, Rwmania, Hwngari, a'r Weriniaeth Tsiec, yn bennaf – wedi bod yn ei gynnig yng nghyd-destun sefyllfa Wcráin mynnodd ein sylw. Cawsom adroddiad gan y llywydd o'i hymweliad â rhai o eglwysi Wcráin; mae'r sefyllfa yn enbyd, llawer gwaeth na'r hyn a welwn ar y cyfryngau, meddai: y lladd diamcan; treisio merched a bechgyn, a phlant; a rheibio cartrefi wedi eu gadael gan Wcrainiaid yn ffoi.

Ymwybyddiaeth Fyd-eang

Ydy'r Cymundeb o bwys i ni Annibynwyr Cymru? Heb amheuaeth! Mae'n hollbwysig ein bod yn cael ein cynrychioli, ein gweld a'n clywed yn y cyrff cydenwadol hyn. Trwy drafodaeth, dadl a sgwrs dyfnha ffydd ac ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn enw ein Harglwydd ledled y byd yr ydym yn gyd-ddinasyddion ohoni. Mawr yw fy nyled i Undeb yr Annibynwyr am y fraint o gael bod yn rhan o'r Cymundeb; rwy'n gobeithio'n fawr fod fy nghyfraniadau i'r trafodaethau yn sicrhau bod ein llais a'n cenhadaeth yng Nghymru yn cael eu clywed. Mae'n bwysig ei fod gan fod gennym brofiadau unigryw i'w cynnig i'n cyd-Gristnogion.

Hefin Jones